# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Lleoliadau Amrywiol Rhwng Mallwyd, Gwynedd a'r Trallwng, Powys) (Gwaharddiad Traffig a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo'r gwaith o osod wyneb newydd yn cael ei wneud ar Gefnffordd Yr Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") mewn chwe lleoliad rhwng Mallwyd yn Sir Gwynedd a'r Trallwng yn Sir Powys.

Disgwylir i'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, fod mewn grym yn ysbeidiol o 21 Mai 2012 tan 31 Mawrth 2013 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol Disgwylir i'r gwaith gael ei wneud rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch. Bydd hysbysiad yn cael ei arddangos ymlaen llaw ynghylch y cyfyngiadau, pan fo hynny'n bosibl, am tua pythefnos cyn i'r gwaith gychwyn ym mhob lleoliad.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn. Bydd y terfynau cyflymder o 40 mya a 30 mya yn weithredol dros y cyfan o'r darnau penodedig o'r gefnffordd a dim ond pan fydd gwaith confoi mewn grym arnynt ar unrhyw ddiwrnod penodol y bydd y terfyn cyflymder 10 mya yn gymwys.

ii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darnau o'r gefnffordd tra bo gwaith confoi mewn grym arnynt.

Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Mallwyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o fynedfa ac allanfa ddwyreiniol Cylchfan yr A470 ym Mallwyd i ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Pont Wrysgen.

Ardal Pont Nant yr Hedydd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Nant yr Hedydd i ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Tal y Glannau.

Ffin Sir Powys i Ddôl-y-maen

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Sir Powys yn Nant y Dugoed i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2055 yn Nôl-y-maen.

Four Crosses i Bont Neuadd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2041 yn Four Crosses i ganolbwynt ei chyffordd â'r A495 ym Mhont Neuadd.

Hydan Cottages i Oakfield

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Tyn y Coed i ganolbwynt ei chyffordd â'r C2197 ger Cyfronnydd.

Sylfaen i'r Trallwng

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4385 yn Sylfaen i fynedfa ac allanfa orllewinol Cylchfan Raven, y Trallwng.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## The A458 Trunk Road (Various Locations between Mallwyd, Gwynedd and Welshpool, Powys) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibition) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst resurfacing works are undertaken on the Shrewsbury – Dolgellau Trunk Road (A458) (hereinafter referred to as "the trunk road") at 6 locations between Mallwyd in the County of Gwynedd and Welshpool in the County of Powys.

The restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to be in force intermittently from 21 May 2012 until 31 March 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are expected to take place between 08:00 hours and 18:00 hours. Where possible, advance notice of the restrictions will be displayed approximately 2 weeks before the commencement of works at each location.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The 40 mph and 30 mph speed limits will operate over the full extent of the specified lengths of the trunk road and the 10 mph speed limit will only apply when convoy working is in force on any given day.

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the lengths of the trunk road whilst convoy working is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

Mallwyd

The length of the trunk road that extends from the eastern access and egress of the A470 roundabout to the centre-point of the access to the property known as Pont Wrysgen.

Pont Nantyrhedydd

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the access to the property known as Nant yr Hedydd to the centre-point of the access to the property known as Tal y Glannau.

Powys County Boundary to Dol-y-maen

The length of the trunk road that extends from the Powys county boundary at Nant y Dugoed to the centre-point of its junction with the U2055 at Dol-y-Maen.

Four Crosses to Neuadd Bridge

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the C2041 at Four Crosses to the centre-point of its junction with the A495 at Neuadd Bridge.

Hydan Cottages to Oakfield

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the access to the property known as Tyn y Coed to the centre-point of its junction with the C2197 near Cyfronydd.

Sylfaen to Welshpool

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the B4385 at Sylfaen to the western access and egress of Raven Roundabout, Welshpool.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE